# Cenn@d

EBRILL 3 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 162

## Cyfarch John Hughes, Llangernyw ar drothwy ei ben-blwydd yn 100 oed

Rai wythnosau yn ôl roeddem yn cyfarch y Parch. Denis Young ar ei ben-blwydd yn 100 oed – y gweinidog cyntaf o blith y Bedyddwyr i gyrraedd y garreg filltir nodedig hon.

Y tro hwn, un o gyn-lywyddion Undeb Bedyddwyr Cymru sy'n cyrraedd y cant, sef ein brawd annwyl John Hughes, y Graig, a fu'n aelod gydol ei oes o gapel bach Bethabara, Llangernyw.

Ganed John yn y Cwm, Llangernyw, sef y cartref y maged Syr Henry Jones ynddo. Gwasanaethodd ei enwad ar amryw bwyllgorau, gan gynnwys Coleg y Bedyddwyr ym Mangor. Anrhydeddwyd ef trwy ei benodi yn Llywydd yr Undeb fel arwydd o barch a diolchgarwch am ei waith. Mae'n genedlaetholwr mawr ac ymdrechodd yn angerddol dros yr iaith a'n diwylliant gydol ei oes; mae'n parhau



i gymryd diddordeb yn 'pethe'. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1995 ym Mro Colwyn, yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Henry Jones, yn aelod o Lys y Brifysgol ym Mangor ac yn Faer Bwrdeistref Colwyn.

Estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog iddo, gan ddymuno pob bendith iddo. Pen-blwydd hapus, John.

### John Hughes, Y Graig

Rhoi ei oes i frwydrau'r iaith
a hynny'n unig ganwaith.

Y Graig oedd angor ei gred
a mynwes ei gymuned.

Gŵr o ddyfnder cymeriad — ni ildiai
o weld gwrthwynebiad,
na gwyro yn ei gariad
drwy gur na bwledi'r gad.

Egwyddor ac argyhoeddiad – a'i nod
yn un penderfyniad
i achub cam ei famwlad
a rhoi oes hir i'w grwsâd.

Fy mro, fy mro, rhowch eich mawrhad
– a rhowch
eich rhwydd werthfawrogiad
i'r un dewraf ei safiad
a'i waith glew dros iaith a gwlad.

*Dewi Wyn*

## Lansio cyfrol Gristnogol gan Glyn Wise


Nos Fercher, 27 Mawrth, ar raglen *Heno* (S4C) lansiwyd cyfrol newydd gan Glyn Wise, sy'n hyfforddi i fod yn ficer gyda'r Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r gyfrol *Llythyr Cariad*, *Llythyr Gobaith* yn edrych ar hunan-les a gofal dros yr unigolyn. Ynddi ceir portreadau o ddwsin o gymeriadau Beiblaidd, a'r modd y gwnaethon nhw ddelio ag argyfyngau a gofidiau.

Meddai'r awdur, Glyn Wise, 'Mae llyfrau hunangymorth yn hynod boblogaidd y dyddiau hyn. Ac wrth ddarllen drwyddyn nhw gyda chrib mân gwelwn fod llawer o'u prif negeseuon yn deillio o'r Beibl. Llythyr cariad gan Dduw i ni yw'r Beibl, ac os nad ydych yn credu yn Nuw, wel, mae'n parhau i fod yn llyfr llawn gwybodaeth ar sut i fyw'r bywyd gorau posibl.

'Mae'r Beibl yr un mor berthnasol yn ein dyddiau ni ag yr oedd ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Bydd llawer yn cymryd y cyfle i ddarllen y llyfr hynafol hwn am y tro cyntaf, a dysgu o brofiadau rhai o'r cymeriadau.'

Mewn cyfnod lle mae hunan-les yn un o'r ffactorau pwysicaf mewn cymdeithas, mae awdur y llyfr hwn am i'r darllenydd edrych sut mae storïau a chymeriadau'r Beibl yn berthnasol i'n bywydau ni heddiw.

Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair ac mae ar gael o'ch siop leol, pris £5.99.




O'r galon
Tudalen 3

Deunyddiau newydd gan Gyhoeddiadau'r Gair
Tudalen 4

Shevet Achim – Brodyr Ynghyd (Salm 133:1)
Tudalen 7